# ATODLEN 1

## ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

*Pŵer i wneud rheoliadau pan wneir argymhellion*

9 (1) Ar ôl iddynt gael adroddiad terfynol o dan baragraff 8 sy'n cynnwys argymhellion gan y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad cychwynnol, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—

(a) gweithredu unrhyw argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad, gydag addasiadau neu hebddynt;

(b) gwneud darpariaeth arall y maent yn ystyried ei bod yn briodol o ran y trefniadau etholiadol a'r newidiadau canlyniadol perthnasol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth iddynt ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu at ddiben gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (1), wneud y pethau a nodir ym mharagraff 5(1)(a) a (b) (ac mae paragraff 5(2) a (4) yn gymwys yn unol â hynny).

(3) Ni chaniateir gwneud unrhyw reoliadau o dan is-baragraff (1) nes bod y cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoedda'r Comisiwn yr adroddiad o dan baragraff 8 wedi dod i ben.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu unrhyw wybodaeth bellach y maent yn ystyried ei bod yn briodol neu unrhyw ddogfennau pellach y maent yn ystyried eu bod yn briodol iddynt mewn perthynas ag argymhellion y Comisiwn.